



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Powys 2020



Lluniwyd yn unol â gofynion



Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
 - i. Safonau Cyflenwi Gwasanaeth
 - ii. Safonau Llunio Polisi
 - iii. Safonau Gweithredu
 - iv. Safonau Hybu
 - v. Cynllun Gwaith 2020-21
3. Cwynion
 - i. Safonau Cyflenwi Gwasanaeth
 - ii. Safonau Llunio Polisi
 - iii. Safonau Gweithredu
 - iv. Ymchwiliadau
4. Sgiliau Iaith Gymraeg Cyflogeion
5. Hyfforddiant Cymraeg i Gyflogeion
6. Recriwtio

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Powys gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac egwyddorion sylfaenol Safonau'r Gymraeg yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylid hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

Mae 5 prif adran o Safonau y mae'n ofynnol i Gyngor Sir Powys gydymffurfio â hwy, gyda'r safonau cyntaf i'w gweithredu o 30 Mawrth 2016.

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth – sut mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n cynnwys gohebiaeth, gwasanaethau ffôn, cyfarfodydd, dogfennau, gwybodaeth ddigidol, gwasanaethau derbynfa, gweinyddu grantiau a chontractau a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

Safonau Lluio Polisi – sut mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg ac yn asesu effaith ar y Gymraeg wrth lunio polisiau a gwneud penderfyniadau a dyrannu grantiau, a'u haddasu i sicrhau gwell effaith ar y Gymraeg.

Safonau Gweithredu - sut mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd ac yn annog defnyddio'r Gymraeg yn ei weithgareddau mewnol, yn cynnwys gwybodaeth cyflogaeth a pholisiau mewnol, trefn gwyno a disgyblu, gwasanaethau mewnwyd, hyfforddiant ac adnoddau i staff a'r broses recriwtio.

Safonau Hybu – llunio a gweithredu Strategaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg o fewn ei ardal, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion – cadw cofnodion penodol yn ymwneud â pherfformiad y Cyngor mewn rhai agweddau o'i waith o dan y safonau.

Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Sir Powys, sy'n amlinellu'r holl Safonau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, i'w weld ar wefan y Cyngor, ac ar y fewnrwyd i staff.

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol hwn i gydymffurfio â Safonau 158, 164 ac 170, sy'n nodi fod rhaid i'r Cyngor lunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r modd y cydymffurfiwyd â'r Safonau. Mae'r adroddiad hwn felly yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

2. Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

i. Cyflenwi Gwasanaeth

Ceir isod amlinelliad o waith a gafodd ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth ac i wella'r modd y darperir gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan Gyngor Sir Powys.

Llawlyfr Staff

Mae'r llawlyfr i staff y Cyngor wedi cael ei ddiweddarau yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg fel un o'r elfennau allweddol sydd angen i staff ystyried wrth ymgymryd â'u dyletswyddau ar ran y Cyngor, ar y cyd ag elfennau fel Gwerthoedd y Cyngor, Cyfathrebu a Gofal am ein Cwsmeriaid, a gwybodaeth am Amodau Gwaith, Strwythur y Cyngor a Phartneriaethau. Mae'r wybodaeth am yr iaith Gymraeg ym Mhowys yn cynnwys cyfeiriad at ofynion Safonau'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a'r rhoi'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynnwys dolenni ar gyfer cyrraedd canllawiau a gwybodaeth fanylach, ynghyd â gwybodaeth am sut i gael cefnogaeth bellach, adnoddau ar gyfer cyflawni'r gofynion a gwybodaeth am gymorth i ddatblygu sgiliau Cymraeg.

Ymgyrch Fewnol ar Ddarparu Gwasanaeth Cymraeg

Yn ystod mis Tachwedd 2019, cynhaliwyd ymgyrch fewnol dros wythnos yn tynnu sylw at wahanol agweddau o'r hyn mae angen i staff fod yn ei wneud er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â gofynion y Safonau. Gosodwyd gwybodaeth ar dudalen flaen mewnwrwyd y Cyngor dros bum diwrnod, o 25 Tachwedd tan 29 Tachwedd yn tynnu sylw at wahanol elfennau o'r gofynion sydd ar y Cyngor wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, ac anfonwyd negeseuon dyddiol i staff trwy'r cyfrif e-bost cyfathrebu corfforaethol i gyd-fynd â hynny. Cafwyd diwrnodau felly yn canolbwyntio ar:

- Ateb galwadau ffon;
- Llythyron ac e-bost;
- Cynnal cyfarfodydd;
- Cyhoeddi dogfennau;
- Cyfryngau cymdeithasol a'r we.

Erbyn diwedd yr wythnos, roedd y *carousel* newyddion, sef yr adran amlycaf ar dudalen hafan mewnwrwyd y Cyngor, yn llawn erthyglau yn ymwneud â darparu gwasanaeth Cymraeg.

Mae'r darlun isod yn dangos y straeon newyddion gafodd eu cyhoeddi ar dudalen flaen mewnwrwyd y Cyngor yn ystod wythnos yr ymgyrch;




Darparu gwasanaeth yn Gymraeg – Diwrnod 5
Carol Davies - 29 Nov 2019
 Ar ddiwrnod olaf yr ymgyrch Darparu gwasanaeth Cymraeg, rydym yn edrych ar wybodaeth ar ein gwefan ac ar ein sianeli cyfngau cymdeithasol. Darllen rhagor



Ydych chi wedi bod yn tyfu mwstas?
Carol Davies - 28 Nov 2019
 A ydych chi wedi bod yn tyfu eich mwstas y Tashwedd hwn i godi ymwybyddiaeth am iechedd dynion? Darllen rhagor...



Y Cyngor yn sefyll lan i gam-drin domestig
John Thomas - 27 Nov 2019
 I nodi Diwrnod Rhuban Gwyn yr wythnos hon, bu staff a chynghorwyr Cyngor Sir Powys led led y sir yn mynd am dro amser cinio.



Darparu Gwasanaeth Cymraeg – Diwrnod 2
Carol Davies - 26 Nov 2019
 Bob dydd yr wythnos yma, rydym yn rhannu'r camau sylfaenol y dylai staff Cyngor Sir Powys fod y neu dilyn i wneud yn siŵr ein bod yn cynnig gwasanaeth teg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Heddiw, rydym yn canolbwyntio ar lythron ac e-bost. Darllen rhagor....



Darparu Gwasanaeth Cymraeg - Diwrnod 4
Carol Davies - 28 Nov 2019
 Mae gan Gyngor Sir Powys gyfrifoldeb i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, a'r gwasanaethau mae'n eu darparu yn Gymraeg. Darllenwch ymlaen am awgrymiadau defnyddiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gynnwys



Tim Gwaith Ieuencid Datgysylltiedig ar restr fer
Eirys Williams - 28 Nov 2019
 Mae un o wasanaethau'r Cyngor sy'n darparu gwasanaeth cwbl unigryw i bobl ifanc mewn angen wedi'i gynnwys ar restr fer i dderbyn dyfarniad pwysig ...



Darparu gwasanaeth yn Gymraeg – Diwrnod 3
Carol Davies - 27 Nov 2019
 Gofynion o ran y Gymraeg mewn cyfarfodydd yw ffocws yr ymgyrchu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg heddiw. Felly pan fyddwch chi'n trefnu neu'n cadeirio cyfarfodydd cyhoeddus, mae sawl peth i'w ystyried o ran yr iaith. Rhagor yma



Darparu Gwasanaeth Cymraeg - Diwrnod 1
Carol Davies - 25 Nov 2019
 Oeddech chi'n gwybod fod gan Gyngor Sir Powys gyfrifoldeb i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, a'r gwasanaethau mae'n ei ddarparu yn Gymraeg? Rydym yn cynnal ymgyrch yr wythnos yma i atgoffa staff am y camau hyn. Darllen rhagor

I gyd-fynd â'r ymgyrch ar fewnwyd ac e-bost corfforaethol y Cyngor, cynhyrchwyd posteri a'u codi yn swyddfeydd ac adeiladau'r Cyngor yn cynnwys y wybodaeth am yr elfennau sylfaenol o ddarparu gwasanaethau Cymraeg, oedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y gofynion i ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor ar yr iaith Gymraeg yn y sir, a'r cyfrifoldeb cyfreithiol sydd ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn ôl gofynion y Safonau ac i beidio â thrin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r posteri wedi parhau o amgylch swyddfeydd y Cyngor, wedi'u gosod mewn mannau amlwg i dynnu sylw aelodau staff i'w hatgoffa o'r hyn sy'n ofynnol iddynt eu gwneud o dan y Safonau ac i sicrhau fod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth trwy gydol y Gymraeg.

Rydym wedi parhau i dynnu sylw at yr ymgyrch, a defnyddio'r posteri ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn cyfarfodydd a sesiynau gwybodaeth ers i'r ymgyrch gael ei chynnal.

Dynodi Dewis Iaith – Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gwaith wedi parhau o fewn gwasanaethau cymdeithasol Powys ar adnabod pa ieithoedd mae defnyddwyr y gwasanaeth yn eu siarad a beth yw eu hiaith gyntaf, i weld ym mha iaith maent am dderbyn eu gwasanaethau. Mae'r Cyngor, ers 2018, wedi sicrhau fod ffurflenni cyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys dau gwestiwn gorfodol i'w hateb:

- Beth yw eich iaith gyntaf?
- Pa iaith/ieithoedd eraill ydych chi'n siarad?

Mae'r rhain yn gwestiynau bwriadol i osgoi holi am ddewis iaith, gan fod profiad yn dangos na fyddai cleientiaid o anghenraid yn gofyn am wasanaeth Cymraeg er y byddai hynny'n well ganddynt mewn gwirionedd, er mwyn hwyluso rhoi'r cynnig rhagweithiol.

Mae hyn yn dod yn fwy effeithiol, ond mae canrannau'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn parhau'n is na'r 18.6% o'r boblogaeth a nododd eu bod yn siarad Cymraeg yng nghyfrifiad 2011.

I gyd-fynd â hynny, mae'r adrannau gwasanaethau oedolion a phlant wedi cynyddu'r data sydd ganddynt am sgiliau iaith eu staff er mwyn ceisio cysylltu staff sy'n siarad Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg er mwyn hwyluso rhoi'r Cynnig Rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg,

fel sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg ac o dan Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol Powys – yr adrannau Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Comisiynu – bellach ddata sgiliau iaith ar gyfer 91.3% o'u staff, ac mae'r data yn nodi fod 11.4% yn meddu ar sgiliau digonol i allu darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg (gweler y ffigyrau yn adran 4 Sgiliau Iaith Gymraeg Cyflogeion isod).

Mae Cynllun wedi'i ddatblygu ar gyfer yr adran er mwyn cyflawni'r nod, sef bod 'Gwasanaethau Cymdeithasol Powys ar gael yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg heb fod angen iddynt ofyn neu nodi dewis iaith'. Mae'r cynllun yn amlinellu gweithgareddau sydd angen eu cynnal o dan dair elfen benodol; Cefnogi Defnyddwyr y Gwasanaeth; Sgiliau Iaith; a'r Cynnig Rhagweithiol, gan ddynodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r gweithgareddau hynny. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth, Pencampwr yr Iaith Gymraeg, yr Adran Comisiynu a Monitro Contractau, Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol, Adran Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol, y Tîm Cyfathrebu, y Swyddog Iaith Gymraeg a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys oll yn bartneriaid ar gyfer cyflawni'r cynllun.

Grŵp Pencampwyr y Gymraeg – Gwasanaethau Cymdeithasol

I gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau yn ôl anghenion ieithyddol y cyhoedd, a gwella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, cafodd grŵp pencampwyr y Gymraeg ei sefydlu o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol y sir. Cafodd ei grŵp ei sefydlu yn sgil trafodaeth yng nghyfarfod grŵp Cynrychiolwyr Gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol ac felly'n wirioneddol wedi codi o ddymuniad staff yr adran i wneud hynny allan nhw i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol. Gofynnwyd i bob tîm enwebu pencampwr i'r cynrychioli ar y grŵp a chafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal ar 3 Chwefror 2020, gan ddewis cadeirydd o blith y grŵp i arwain trafodaethau am gyfleoedd, heriau ac atebion newydd i ddarparu gwasanaethau i'w cleientiaid.

Cwsmer Cudd

Mae ymarfer cwsmer cudd wedi cael ei drefnu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys (Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant). Bydd hwn yn ymarfer parhaus, ac yn cael ei gynnal bob chwarter, gan edrych ar wasanaeth dros y ffôn, ar e-bost, systemau cyswllt dros y we, gohebiaeth a gwasanaethau derbynfa.

Dros y flwyddyn, bydd modd gwerthuso'r gwasanaeth, gan weld os ymatebwyd i ymholiadau o fewn yr amserlen, cymharu'r ymateb i gyswllt Cymraeg a Saesneg, sut yr ymdriniwyd ag ymholiadau Cymraeg, os darparwyd y wybodaeth briodol ac yn y diwyg priodol, a chael adborth am agwedd gyffredinol tuag at ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ystod unrhyw gyswllt.

*Er bod y cynllun wedi cael ei gomisiynu ac i fod i gychwyn yn ystod chwarter cyntaf 2020-21, mae'r ymarfer wedi cael ei ohirio yn sgil y gwaith i ymateb i argyfwng Covid-19.

Gweithio gyda Phartneriaid

Mae Grŵp Hyrwyddo, Herio a Cefnogi'r Gymraeg Powys yn parhau i weithredu o dan strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi datblygu gwasanaethau ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled y Sir gan adrodd o Grŵp Trawsbynciol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae aelodaeth y grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru, Heddlu

Dyfed Powys, y Gwasanaeth Ambiwylans, Coleg Castell-nedd Port Talbot a'r Mentrau Iaith. Mae ffocws y grŵp yn bennaf ar roi'r Cynnig Rhagweithiol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg o dan fframwaith strategol Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru.

Bu'r Cyngor yn parhau i gefnogi a chydweithio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a PAVO ar hyrwyddo'r Gymraeg, yn cynnwys cydweithio ar Fframwaith Strategol ar gyfer y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cafwyd cyfarfod penodol i drafod sut i gynnwys yr iaith Gymraeg o fewn y cynllun er mwyn ceisio sicrhau sgiliau digonol ar gyfer medru darparu gwasanaethau yn ôl gofynion Safonau'r Gymraeg.

Yn sgil llwyddiant y Cyngor yn ennill gwobrau ar lefel Prydain am ei drefn Asesu Effaith yng ngwobrau risg sefydliad Alarm yn 2018, cafodd cynrychiolwyr o'r cyngor wahoddiad i roi cyflwyniad ar ei drefn asesu effaith i Rwydwaith Risg Cymru ar 12/7/19. Amlinellwyd y modd y mae'r Cyngor yn asesu effaith ar y Gymraeg, ynghyd ag ar Gydraddoldeb, Cenedlaethau'r Dyfodol, Blaenoriaethau Strategol y Cyngor a Risg, ymhlith elfennau eraill, gan nodi sut y mae'r drefn yn cyfrannu ar broses wneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am y drefn asesu effaith i ddilyn yn Adran ii – Safonau Llundio Polisi, isod.

Gwaith gyda Chontractwyr

Cynhaliwyd arolwg gyda mudiadau 3ydd parti sy'n gweithredu ym maes gofal cymdeithasol o dan waith Grŵp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg Powys, i weld i ba raddau mae'r mudiadau hynny yn gallu darparu gwasanaethau yn ôl gofynion Safonau'r Gymraeg, ac i weld pa gefnogaeth fyddent yn ei weld yn ddefnyddiol i wella'r modd y maent yn gwneud hynny. Dangosodd yr Arolwg Cynnig Rhagweithiol ar gyfer mudiadau sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol (2019) fod gan 78% o'r sawl a ymatebodd bolisi iaith Gymraeg. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogwyd yn isel, mae 69% o'r mudiadau yn cynnig cefnogaeth i'w staff ddysgu Cymraeg. Yn gysylltiedig â sgiliau Cymraeg y gweithlu, dim ond 27% o'r ymatebwyr oedd bob amser yn gallu cyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog, 11% oedd bob amser yn anfon gohebiaeth yn ddwyieithog, a 27% sy'n gallu cynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Serch hynny, dim ond 22% syth byth yn gofyn i'w cwsmeriaid ym mha iaith maent am dderbyn gwasanaeth.

Gweithiwyd gyda Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) ar brosiect i ddarparu pecyn cefnogaeth i fudiadau gwirfoddol a mudiadau 3ydd parti (ond a fyddai ar gael hefyd yn ehangach yn y sir, e.e. i leoliadau rheng flaen y gwasanaeth iechyd) er mwyn eu cynorthwyo i roi'r cynnig rhagweithiol, a darparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Penodwyd Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg i weithio oddi mewn i PAVO i weithio'n benodol ar y prosiect. Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg uchod i fwydo i mewn i'r broses ac i weld pa gefnogaeth y byddai'r mudiadau ei angen ac yn ei werthfawrogi.

Mae'r prosiect yn cynnig cymorth i fudiadau gyda;

- Drafftio Cynllun Gweithredu iaith Gymraeg
- Cynnwys y Cynnig Rhagweithiol mewn ceisiadau cyllid
- Cyfeirio mudiadau at arbenigwyr i gael cefnogaeth i wneud mwy yn Gymraeg
- Cefnogaeth gyda marchnata dwyieithog a'r cyfryngau cymdeithasol
- Hyfforddiant a Gweminarau ar y Cynnig Rhagweithiol
- Gwasanaethau cyfieithu
- Canllawiau ar sut i ddefnyddio'r pecyn deunyddiau a grëwyd fel rhan o'r prosiect
- Cymorth arbenigol ar unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

Cafwyd lansiad swyddogol ar gyfer y prosiect ar 2 Hydref 2019 i gyflwyno'r pecyn cymorth a rhoi cyfle i fudiadau ddysgu mwy am y Cynnig Rhagweithiol a beth mae'n ei olygu i siaradwyr Cymraeg sy'n byw ym Mhowys. Cafwyd nifer o siaradwyr gwadd i drafod gwahanol elfennau o roi'r cynnig rhagweithiol, yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg, ymarferwyr o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol a chael blas o brofiad defnyddwyr y gwasanaethau.

Cafodd geiriad yn ymwneud â darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â'r Safonau mewn contractau gofal cymdeithasol ei ddiweddarau a'i gryfhau yn ystod y flwyddyn. Mae'r contractau'n mynnu fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion y Safonau a Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau y Llywodraeth, gan nodi'r elfennau y mae disgwyl i gontractwyr ymgymryd â hwy, ac yn nodi y gellir nodi gofynion ychwanegol mewn rhai achosion. Yn y ddogfen dendro, mae'n ofynnol hefyd i ddarparu gontractwyr nodi 'Sut fyddwch chi'n cefnogi defnyddwyr y gwasanaethau i ddefnyddio'r gwasanaeth trwy'r cyfrwng a'r iaith o'u dewis, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Fframwaith Mwy na Geiriau'.

Cafodd trefn fonitro fwy cadarn ei chyflwyno i sicrhau cydymffurfiaeth a gweld pa gefnogaeth fyddai'n ddefnyddiol i'r contractwyr. Mae'r broses honno yn cynnwys cyfres o gwestiynau i ganfod a oes gan y mudiadau bolisi iaith Gymraeg, nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg sydd ganddynt yn gwasanaethu Powys, a mesur eu gallu i roi'r Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac mewn deunydd ysgrifenedig. Gofynnir hefyd beth fyddai'n eu helpu i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r gofynion.

Gweithiodd y Cyngor hefyd gyda chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau ar-lein ar ran adrannau Refeniw a Budd-daliadau a Gwasanaethau Plant y Cyngor i ddatblygu gwasanaethau ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys teclynnau sgwrsio a chynghori dros y we.

Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg

Fel rhan o waith Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol, derbyniodd Cyngor Sir Powys adroddiad manwl am ei berfformiad, sy'n nodi ym mha feysydd y mae'n perfformio'n dda, a pha feysydd sydd angen eu gwella.

Roedd yr adroddiad a dderbyniwyd ym mis Tachwedd 2019 nodi fel a ganlyn (rhoddir cymhariaeth â chanlyniadau arolwg y flwyddyn flaenorol ble'r oedd yr un elfennau'n rhan o'r ddau arolwg);

- Roedd y Cyngor wedi ymateb i gyfran uwch o negeseuon e-bost Cymraeg yn Gymraeg Derbyniwyd ymateb Cymraeg i 2 neges o blith 3 a anfonwyd, o'i gymharu ag un o'r tair neges y flwyddyn flaenorol
- Roedd pob galwad ffôn yn yr arolwg wedi cael eu hateb yn Gymraeg, a chyfran uwch wedi'u trin yn llawn yn Gymraeg
Roedd dewis awtomatig Cymraeg ar gael ym mhob galwad, cafwyd cyfarchiad Cymraeg gan y derbyniwyd i bob galwad, a chafwyd ateb cyflawn i'r ymholiad yn Gymraeg mewn 2 alwad allan o dair. Roedd hyn yn cymharu â dewis awtomatig a chyfarchiad Cymraeg ym mhob galwad y flwyddyn flaenorol, ac ymateb Cymraeg cyflawn mewn un alwad allan o dair.
Mae Safonau Cyngor Sir Powys ar gyfer galwadau ffôn yn nodi fod yn rhaid i'r Cyngor ddelio â galwadau yn Gymraeg a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw
- Roedd dogfennau yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â gofynion y Safonau, gan gydfynd â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol

- Roedd mwyafrif helaeth y negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg (13/15 ar Facebook a 14/15 ar Twitter)
- Roedd pob enghraifft o hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor a welwyd yn ddwyieithog, gan gyd-fynd â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol
- Roedd pob hysbyseb swydd yn Gymraeg a bod y broses ymgeisio ar gael yn Gymraeg yn llawn
- Roedd staff derbynfa yn medru ymdrin ag ymwelwyr yn Gymraeg a bod holl arwyddion y dderbynfa yn Gymraeg

Serch hynny, roedd yr adroddiad hefyd yn nodi rhai gwendidau, fel a ganlyn;

- Croesawu gohebiaeth Gymraeg – nid oedd ymatebion i negeseuon e-bost yn cynnwys datganiad fod y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Mae'r Cyngor bellach wedi diweddaru ei dempled llofnod e-bost i gynnwys brawddeg safonol i nodi ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Mae'r templed ar gael ar fewnwyd y Cyngor, ac wedi cael ei hysbysebu trwy negeseuon o gyfrif e-bost Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor a thrwy Dimau Rheoli Gwasanaethau.
- Dogfennau – nid oedd fersiynau Saesneg o ddogfennau, ffurflenni, taflenni ac ati yn cynnwys datganiad yn nodi fod y dogfennau hynny hefyd ar gael yn Gymraeg.
Mae'r canllawiau i staff y Cyngor ar gydymffurfio â gofynion y Safonau yn cynnwys cymal am sicrhau fod fersiynau Saesneg o ddogfennau yn cynnwys datganiad fod y dogfennau hefyd ar gael yn Gymraeg.
Mae brawddeg safonol hefyd wedi cael i llunio i'w chynnwys mewn dogfennau sy'n cael eu paratoi gan adran dylunio graffeg y Cyngor.
- Dogfennau Ymgynghori – nodwyd nad oedd dogfennau ymgynghori yn ceisio barn am yr iaith Gymraeg.
Cafodd templed corfforaethol y Cyngor ar gyfer holiaduron ymgynghori ei ddiweddaru yn Ionawr 2020 i gynnwys cwestiynau sefydlog ar effaith unrhyw gynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran ii. Safonau Llundain Polisi, isod.
- Gwefan y Cyngor – gwelodd arolwg o 30 o dudalennau gwefan y Cyngor fod y wybodaeth oedd wedi'i darparu ar y tudalennau Cymraeg yn wahanol o bryd i'w gilydd i'r hyn oedd ar y tudalennau Saesneg, ac nad oedd rhai o'r tudalennau Cymraeg yn gweithio'n llawn.
Serch hynny, wedi ymchwili pellach gan y Cyngor, gwelwyd fod yr arolwg wedi cael ei gynnal tra'r oedd y Cyngor yn y broses o drosglwyddo'i wefan i lwyfan newydd. Erbyn i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad, roedd yr holl faterion a godwyd wedi cael eu datrys.

Cyfieithu a Darparu Gwybodaeth Ddwyieithog

Mae gan Gyngor Sir Powys uned gyfieithu fewnol sy'n cefnogi gwasanaethau'r Cyngor ac yn eu galluogi i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog, ac yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, sy'n galluogi pobl i gyfrannu at gyfarfodydd yn yr iaith o'u dewis, ac yn sicrhau fod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn medru dilyn y drafodaeth yn llawn.

Derbyniodd Uned Gyfieithu'r Cyngor 6832 cais am wasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 6724 y flwyddyn flaenorol, sy'n dangos fod y Cyngor yn parhau i gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael yn ddwyieithog i drigolion ac ymwelwyr â'r sir.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 97.4% o geisiadau cyfieithu eu dychwelyd o fewn y targedau ar gyfer dychwelyd gwaith. Mae hyn yn amrywio o targed o 1 diwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau brys fel

datganiadau i'r wasg brys, gwybodaeth frys ar gyfer y wefan a'r fewnwyd, deunydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, gohebiaeth, hysbysebion ac agendau pwyllgorau; 5 diwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau â llai o frys ar eu cyfer fel llythron cyffredinol, posteri, swydd ddisgrifiadau a dogfennau llai na 100 o eiriau, neu darged hirach y cytunwyd arno ar gyfer dogfennau a strategaethau hirach. Roedd hyn yn galluogi cyhoeddi gwybodaeth yn ddwyieithog i'r cyhoedd, swyddogion ac aelodau etholedig mewn modd amserol.

Daeth y gyfran fwyaf o'r gwaith o'r Gwasanaeth Ysgolion (22.9%) gyda chyfran sylweddol hefyd gan yr Adran Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (13.7%), Adran Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu (11.5%) a'r Adran Trawsnewid a Chyfathrebu (10.4%).

Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg

Cynhaliwyd Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn i fethiant i gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth. Daeth y Comisiynydd i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg drwy beidio ag ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a anfonwyd at y Cyngor yn Gymraeg. Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae Atodiad 1 hefyd yn rhestru cyfres o gwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ymwneud â gwasanaethau a ddarparwyd yn Gymraeg a'i gydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth.

ii. Safonau Llundio Polisi

Ceir isod amlinelliad o waith a gafodd ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau Llundio Polisi ac i wella'r modd y caiff yr effaith ar yr iaith Gymraeg ei ystyried o fewn polisiâu a phenderfyniadau Cyngor Sir Powys.

Yn ystod y flwyddyn, mae trefn Asesu Effaith Gorfforaethol y Cyngor wedi cael ei diweddarau. Mae'r drefn honno yn cynnwys asesiadau effaith ar y Gymraeg, ynghyd ag ar gydraddoldeb, cenedlaethau'r dyfodol, blaenoriaethau'r Cyngor, a nifer o elfennau eraill. Cafodd y templed a'r canllawiau diwygiedig eu cyhoeddi ar fewnwyd y Cyngor yn ystod mis Mawrth 2020, yn barod i gael eu defnyddio o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae cynlluniau hefyd i ddigideiddio'r broses asesu effaith yn ystod 2020-21, fydd yn hwyluso'r broses ar gyfer y sawl sy'n cynnal yr asesiad, ac yn galluogi mesur effaith gronnydd penderfyniadau a gwasanaethau'r Cyngor ar unrhyw elfen sy'n cael ei hystyried o fewn yr asesiadau.

Mae'r cwestiynau am yr effaith ar y Gymraeg yn cynnwys ystyried yr effaith ar;

- Gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith, a pheidio trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- Effaith ar staff o ran y Gymraeg

Gofynnir sut mae'r newid a gynigir yn cyfrannu neu'n effeithio ar y penawdau hynny gan roi mesur o'r effaith a ragwelir, o wael iawn i dda iawn.

Yna ceir cwestiwn pellach yn gofyn beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau effaith fwy cadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, gan ofyn hefyd am fesur o'r effaith ar ôl y camau lliniaru.

Mae'n ofynnol bod asesiad effaith ynghlwm wrth adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor, a rhaid cynnwys crynodeb o'r effaith a ragwelir hefyd yng nghorff yr adroddiadau cabinet.

Rhaid hefyd bod asesiadau effaith yn cael eu defnyddio i ddatblygu polisiâu a chynigion eraill gan adrannau'r Cyngor, fydd ddim o anghenraid yn mynd i'r Cabinet er penderfyniad.

Caiff sesiynau hyfforddi eu cynnal ar gyfer staff sy'n ymgymryd ag asesiadau effaith, gyda rhaglen o hyfforddiant chwarterol wedi cael ei threfnu.

Mae templed corfforaethol y Cyngor ar gyfer holiaduron ymgynghori wedi cael ei ddiweddarau, ac yn cynnwys cwestiynau ar effaith unrhyw gynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Defnyddir y templed hwnnw hefyd ar gyfer ymgynghoriadau trawsnewid ysgolion.

Cafodd canllawiau ymgynghori corfforaethol y Cyngor hefyd eu diweddarau yn ystod Mawrth 2020, ac roeddynt yn cynnwys adran ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg a cheisio barn rhanddeiliaid am yr effaith ar y Gymraeg.

Mae'r adran ar y Gymraeg yn nodi fod Safonau'r Gymraeg yn mynnu fod yr awdurdod yn asesu effaith polisiâu a gwasanaethau ar y Gymraeg, ac yn nodi enghreifftiau o'r cwestiynau y dylid eu gofyn, fel a ganlyn;

“Pa effaith fyddai gan y cynnig hwn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol?”

“Sut y gellir newid hyn fel bod ei effaith yn fwy cadarnhaol?”

Cynhaliwyd Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn i fethiant i Gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ymwneud ag Asesiadau Effaith ar gynigion i uno ysgolion yn ardal Llanfyllin. Daeth y Comisiynydd i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â gofynion y Safonau Lluo Polisi yn ymwneud ag asesu y effaith cynigion trawsnewid ysgolion yn ddigonol ar yr iaith Gymraeg, ac wrth ofyn cwestiynau am effaith y cynigion ar y Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori. Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad, yn cynnwys camau a gymerwyd gan y Cyngor i wella ei brosesau, i'w gweld yn Atodiad 1.

iii. Safonau Gweithredu

Ceir isod amlinelliad o waith a gafodd ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu ac i wella'r modd y darperir gwybodaeth, adnoddau a gwasanaethau mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg gan Gyngor Sir Powys.

Adnoddau i Staff

Yn ystod y flwyddyn cafodd mewnrwyd ddwyieithog newydd y Cyngor ei datblygu ymhellach i gynnwys rhagor o wybodaeth ac adnoddau i staff, gan sicrhau fod yr holl dudalennau, adnoddau, dogfennau a theclynnau yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr un modd a'r Saesneg.

Ym mis Chwefror 2020, cafodd llofnod e-bost corfforaethol newydd ei greu ar gyfer staff y Cyngor, sy'n cynnwys brawddeg safonol am groesawu gohebiaeth yn Gymraeg

Mae dolen newydd wedi'i gosod ar frig mewnrwyd staff y Cyngor i alluogi dod o hyd i staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn hwylus. Bydd hyn yn hwyluso dod o hyd i siaradwyr Cymraeg e.e. ar gyfer cyfeirio galwadau ffôn.

Mae'r Llawlyfr Staff wedi cael ei ddiweddarau, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg a gofynion y Safonau, gyda dolenni i alluogi staff i ddod o hyd i ganllawiau pellach, adnoddau, cymorth a gwybodaeth am ddatblygu sgiliau Gymraeg

Cyfathrebu Mewnol

Bu gwaith yn ystod y flwyddyn ar fireinio'r drefn ar gyfer cyfathrebu mewnol o fewn y Cyngor, i sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei gyflwyno yn ddwyieithog i staff trwy sianelu'r sianelu cyfathrebu mewnol.

Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir yn ddwyieithog ar fewnrwyd y Cyngor, caiff negeseuon e-bost o gyfrif Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor eu hanfon un ai'n ddwyieithog ar ffurf tabl gyda'r ddwy iaith ochr yn ochr ar gyfer negeseuon byrrach, neu mewn dwy neges ar wahân – un yn Gymraeg ac un yn Saesneg – yn cael eu hanfon yr un pryd os yw'r negeseuon yn hirach.

Dilynir yr un drefn hefyd gyda negeseuon o gyfrifon Gwasanaethau TG a Dysgu a Datblygu y Cyngor.

Lluniwyd canllaw mewnol hefyd ar gyfer cyflwyno fideos a flogiau yn ddwyieithog.

Os yw fideo yn cynnwys nifer o wahanol aelodau staff yn cyflwyno negeseuon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod siaradwyr Gymraeg a Saesneg yn cyfrannu at y fideo, ac is-deitlau yn cael eu darparu yn Saesneg a Chymraeg ar y rhannau perthnasol.

Mewn fideos sydd ag un cyfrannwr, os yw'r cyfrannwr yn ddwyieithog (e.e. gan y Prif Weithredwr) yn ddibynnol ar natur y neges sydd i'w chyflwyno, bydd y fideo un a'i cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog, gydag is-deitlau priodol, neu dwy fideo ar wahân yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os bydd fideo yn cael ei chreu gyda chyfrannwr di-Gymraeg (e.e. aelod Cabinet neu gyfarwyddwr di-Gymraeg) yna bydd un fersiwn yn cael ei chreu gydag is-deitlau Gymraeg ac un arall gydag is-deitlau Saesneg.

Sesiynau Cynefino

Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal sesiynau cynefino i reolwyr, sy'n cynnwys sesiwn ar yr Iaith Gymraeg ym Mhowys a Safonau'r Gymraeg. Gall hynny fod yn rheolwyr sy'n ymuno a'r Cyngor o'r newydd, neu'n rheolwyr sydd wedi cael eu dyrchafu i'r swyddi hynny yn fewnol.

Mae trefn newydd wedi'i sefydlu hefyd ar gyfer cynnal sesiynau cynefino i'r holl staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor, gyda'r sesiynau hynny hefyd i gynnwys gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg a'r Safonau. Mae rhaglen fisol o sesiynau wedi cael eu trefnu, ac roedd y gyntaf i fod i gael ei chynnal ar 31 Mawrth. Serch hynny, yn sgil pandemig Covid-19, cafodd y sesiynau cyntaf eu gohirio.

Sesiynau Adrannau Unigol

Cynhaliwyd sesiynau gydag adrannau unigol hefyd i drafod darparu gwasanaethau dwyieithog a gofynion Safonau'r Gymraeg, yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd gyda grwpiau o staff o Adran Dai y Cyngor ym mis Gorffennaf ac Awst 2019 ac yn Ionawr 2020 fel rhan o hyfforddiant oedd yn cael ei gynnal i'r adran ar ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd; sesiwn ar hybu a hyrwyddo gwasanaethau Gymraeg trwy gontractau gofal cymdeithasol yn nghyfarfod tîm rheoli gwasanaethau Comisiynu'r Cyngor (8 Mai 20109) a thrafodaeth am ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi staff i ehangu'r ddarpariaeth o fewn gofal cymdeithasol yng nghyfarfod Cynrychiolwyr Gweithlu Gofal Cymdeithasol y Cyngor (21 Hydref 2019).

Gwobrau Staff Cyngor Sir Powys – Gwobr y Gymraeg

Cafodd Gwobr y Gymraeg ei chynnwys ymhlith Gwobrau Staff Cyngor Sir Powys eto eleni. Mae hon yn wobwr ar gyfer gweithiwr neu dîm sydd wedi cymryd camau ychwanegol i wneud yn siŵr fod cwsmeriaid yn gallu derbyn gwasanaeth o safon uchel yn y Gymraeg, neu sydd wedi ysbrydoli eraill i wneud mwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r wobwr yn tynnu sylw at bwysigrwydd a gwerth darparu gwasanaeth Cymraeg da, ac yn dangos gwerthfawrogiad i'r staff hynny sy'n mynd gam yn bellach i sicrhau fod gwasanaeth Cymraeg da ar gael.

Datblygu Sgiliau Cymraeg

O dan ofynion y Safonau Gweithredu, ond hefyd fel rhan o ymrwymiad y cyngor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir, fel ei gyfraniad tuag at darged y Llywodraeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r Cyngor yn annog ei staff i ddysgu Cymraeg trwy amrywiaeth o ddulliau;

a) Cwrs ar-lein Croeso Cymraeg Gwaith

Mae'r Cyngor wedi cofrestru fel cyflogwr ar gyfer cyrsiau Cymraeg Gwaith ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd i ddysgu trwy'r dulliau hyn trwy erthyglau newyddion ac adran ar y fewnrwyd a thrwy negeseuon trwy gyfrif e-bost Cyfathrebu Corfforaethol.

Mae'r cwrs Croeso ar-lein felly ar gael i unrhyw un o staff y Cyngor gofrestru arno am ddim. Yn ôl yr adroddiad diwethaf, roedd 231 wedi cofrestru ar gyfer y cyrsiau ar-lein, ac 11 wedi'i gwblhau.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, fel yr oedd cyfyngiadau yn cael eu gosod ar symud a newid yn y ffordd roedd pobl yn gweithio, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau staff oedd yn ymgymryd â'r cwrs Croeso ar-lein, gyda 51 cwrs wedi'u cwblhau ers diwedd mis Mawrth – cynnydd o 463% ar y nifer oedd wedi cwblhau'r cyrsiau'n flaenorol.

b) Cyrsiau Cymraeg i Oedolion cymunedol

Mae nifer o staff y Cyngor yn dilyn cyrsiau Cymraeg cymunedol, un ai fin nos neu yn ystod y diwrnod gwaith, gyda'r Cyngor yn talu ffioedd cofrestru'r cyrsiau.

Mae 40 wedi mynychu cyrsiau yn ystod y flwyddyn academaidd, gan gofrestru trwy'r Cyngor, a gyda'r Cyngor yn talu eu ffioedd.

c) Cwrs Cymraeg Gwaith

Bu'r Cyngor yn cydweithio â chymdeithas Tai Canolbarth Cymru i gynnal cwrs Cymraeg Gwaith dwys yn yr ardal i sicrhau fod digon o ddysgwyr ar yr un lefel ac yn medru mynychu'r un lleoliad i gael niferoedd digonol i gynnal cwrs. Bu aelodau o staff y ddau sefydliad yn mynychu gwersi wythnosol ym mhencadlys Tai Canolbarth Cymru yn Y Drenewydd bob dydd Llun o fis Hydref 2019 tan ganol Ebrill 2020 (gyda'r gwersi olaf yn cael eu cynnal dros y we yn sgil cyfyngiadau symud Covid-19).

Rhodddwyd cefnogaeth i'r dosbarth hefyd trwy gynnal sesiwn i ddangos yr adnoddau sydd ar gael i helpu staff i weithio mwy trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys geiriaduron a rhestrau termau ar-lein, e.e. Geiriadur yr Academi, TermCymru ac adnoddau Comisiynydd y Gymraeg; meddalwedd gwirio sillafu trwy Cysgliad a Microsoft; ac adnoddau a chymorth sydd ar gael i staff y Cyngor trwy dudalennau'r iaith Gymraeg ar y fewnrwyd a chefnogaeth gan Uned Gymraeg y Cyngor.

ch) Dulliau Dysgu Eraill

Mae staff hefyd yn dysgu trwy ddulliau eraill, gyda rhai wedi mynychu cyrsiau preswyl pum

niwrnod Cymraeg Gwaith, dysgu trwy seminarau 1 i 1, a thrwy weithgareddau llai ffurfiol fel sesiynau sgwrsio a chiniawau Cymraeg.

iv. Safonau Hybu

Ceir isod amlinelliad o waith a gafodd ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer cydymffurfio â Safonau Hybu'r Gymraeg ac yn ymwneud â Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Powys i ehangu'r defnydd a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a chynyddu nifer siaradwyr Cymraeg ym Mhowys.

Cwrs Cyfieithu Cymunedol

Cefnogwyd cwrs cyfieithu cymunedol undydd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Nanthirwen, Llansilin, ar y cyd gyda Menter Maldwyn. Cynhaliwyd y cwrs, oedd yn rhad ac am ddim i'w fynychu, ym mis Mehefin 2019 dan arweiniad Dafydd Chilton, sydd â phrofiad helaeth ym maes cyfieithu ar y pryd a chyfieithu cymunedol trwy Cyfieithu Cymunedol Conwy.

Diben y cwrs oedd datblygu sgiliau pobl allai fynd ati i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn galluogi i gyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol barhau i gael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ail-normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol o fewn ein cymunedau, a chynnig cyfleoedd i bobl weithio, magu profiad a datblygu gyrfa yn eu cymunedau gwledig.

Gwobrau Staff Mudiad Meithrin

Fe noddodd Cyngor Sir Powys wobwr Cylch Ti a Fi fel rhan o Wobrau Blyneddol Mudiad Meithrin am yr ail flwyddyn yn olynol. Yn ogystal a chefnogi mudiad sy'n gwneud gwaith allweddol yn y Sir, roedd y Cyngor am ddangos cymaint mae'n gwerthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad gan unigolion a grwpiau ymroddedig i ddarparu gwasanaeth ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Hyrwyddo'r Diwylliant a Digwyddiadau Cymraeg

Bu'r Cyngor yn hwyluso a chefnogi cyfarfodydd yr Urdd i baratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd yr Eisteddfod i fod i gael ei chynnal ym Mhowys yn 2022, ond mae bellach wedi'i gohirio yn sgil sefyllfa pandemig Covid-19. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys hwyluso trefniadau cyfarfod cyhoeddus ym Mehefin 2019 i'r gymuned wahodd yr Eisteddfod yn ffurfiol i'r sir.

Manteisiodd y Cyngor ar ddigwyddiadau fel Dydd Miwsig Cymru i godi ymwybyddiaeth ac i hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg. Yn achos Dydd Miwsig Cymru crëwyd rhestr chwarae o gerddoriaeth gan artistiaid o Bowys neu sydd â chysylltiad â Phowys, gan ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â chyfres o bostiadau yn cynnwys fideo neu recordiad o artistiaid o'r ardal o wahanol *genres* cerddorol i ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg o'r sir, a rhoi cyhoeddusrwydd yr un pryd i'r ymgyrch a'r dathliadau cenedlaethol.

Cefnogwyd dathliadau Diwrnod Llywelyn a gafodd ei gynnal gan Fenter Brycheiniog a Maesyfed yn Llanfair-ym-Muallt ar 11 Rhagfyr 2019. Fel rhan o'r dathliadau, yn y cyfnod yn arwain at Ddiwrnod Llywelyn, comisiynodd y Fenter ddrama am hanes Llywelyn i deithio o amgylch ysgolion yr ardal gan gael ei chyflwyno i oddeutu 600 o blant Cyfnod Allweddol 2. Cynhaliwyd gweithdai yn yr ysgolion cynradd hefyd i greu tariannau a chleddyfau ar gyfer y dathliadau. Ar ddiwrnod Llywelyn, cynhaliwyd gorymdaith o amgylch tref Llanfair-ym-Muallt, gydag oddeutu 220 o blant o 7 o ysgol y dalgylch yn cymryd rhan, ynghyd â thuag ugain o wirfoddolwyr o grwpiau lleol, yn cynnwys y Rotari a'r Fforwm

laith, i gefnogi'r gweithgareddau. Cafwyd bore o weithgareddau i ddilyn gyda chymeriad Llywelyn Ein Llyw Olaf o ddrama Mewn Cymeriad a'r Welsh Whisperer yn darparu'r adloniant.

Datblygiadau Addysg Powys

Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer addysg yn y Sir dros y misoedd diwethaf, gyda mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn cynnwys Cynghorwyr, Penaethiaid, Llywodraethwyr, staff ysgolion, staff y gwasanaeth ysgolion, dysgwyr

Ym mis Ebrill 2020, cymeradwywyd 'Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020-2030', a ddatblygwyd yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys 4 Nod Strategol. Un o'r rhain yw i 'Wella mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol', gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn y nifer o blant sy'n cael mynediad i addysg Gymraeg. Bydd rhaglen waith i gyd-fynd efo'r strategaeth, fydd yn cynnig gweithgareddau penodol yn ymwneud ag addysg Gymraeg, yn cynnwys symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith a datblygu darpariaeth newydd

O dan waith hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg, mae'r Cyngor wedi sefydlu is-grwp hyrwyddo addysg Gymraeg wedi'i sefydlu fel rhan o Fforwm Addysg Gymraeg y Cyngor. Mae'r is-grwp hyrwyddo yn cynnwys cynrychiolaeth o RhAG, y Mentrau Iaith a Mudiad Meithrin, yn ogystal a swyddogion y Cyngor.

Mae'r grwp yn gweithio ar baratoi taflen hyrwyddo addysg Gymraeg, gyda'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu gan y Mentrau Iaith a swyddogion y cyngor. Y bwriad yw lansio'r daflen ym mis Medi, fel rhan o ymgyrch hyrwyddo addysg Gymraeg ym Mhowys, fydd hefyd yn cynnwys fideos cysylltiedig.

v. Cynllun Gwaith 2020-21

		Adrannau Perthnasol Safonau'r Gymraeg	Dyddiad Targed
1	Sefydlu Grŵp Llywodraethiant Iaith Gymraeg newydd i Gyngor Sir Powys, i sicrhau fod yr iaith Gymraeg, yn cynnwys effaith penderfyniadau ar y Gymraeg, yn cael eu hystyried mewn trafodaethau a chynlluniau strategol	Llunio Polisi, Cyflenwi Gwasanaeth, Hybu	Rhagfyr 2020
2	Cynnal adolygiad o waith a strwythur Grŵp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg Powys, i sicrhau fod y grŵp yn cael dylanwad priodol, a bod y partneriaid yn cael budd o'r gwaith	Cyflenwi Gwasanaeth, Hybu	Hydref 2020
3	Cefnogi darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi'r Cynnig Rhagweithiol trwy sesiynau yn Nhimau Rheoli Gwasanaethau i drafod gofynion y Gymraeg, yn cynnwys y Safonau Cyflenwi	Cyflenwi Gwasanaeth, Llunio Polisi, Gweithredu	Mawrth 2021

	Gwasanaeth, Llundain Polisi a Gweithredu Mewnol		
4	Cynnal Ymarfer Cwsmer Cudd o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol y Cyngor er mwyn gwerthuso sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau	Cyflenwi Gwasanaeth	Mawrth 2021
5	Creu cronfa ddata o frawddegau ac ymadroddion defnyddiol i staff ac aelodau etholedig i annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg ac i roi'r Cynnig Rhagweithiol o wasanaeth yn Gymraeg	Cyflenwi Gwasanaeth	Awst 2020
6	Creu a chyflwyno system i awtomeiddio'r broses o wneud cais a chofnodi gwaith cyfieithu, i greu proses hwylus i wneud cais am gyfieithiad, a galluogi casglu data cyfieithu, i alluogi i'r tîm cyfieithu ganolbwyntio ar lunio cyfieithiadau	Cyflenwi Gwasanaeth, Gweithredu	Gorffennaf 2020
7	Digideiddio'r broses asesu effaith integredig, i wneud y broses asesu yn hwylus, a galluogi chwilio'n hwylus trwy'r data i ganfod tueddiadau neu effaith anghymesur	Llundain Polisi	Medi 2020
8	Cynnal ymgyrch Cynnig Rhagweithiol olynol trwy sianeli cyfathrebu corfforaethol i atgoffa staff am ofynion y Safonau	Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu	Mawrth 2021
9	Darparu sesiynau hyfforddi chwarterol i staff ar asesu effaith polisiâu a phenderfyniadau ar y Gymraeg, fel rhan o'r broses Asesu Effaith gorfforaethol	Llundain Polisi	Mawrth 2021
10	Darparu sesiwn i'r Cabinet ar eu rôl yn asesu effaith penderfyniadau ar y Gymraeg, fel rhan o'r broses Asesu Effaith gorfforaethol	Llundain Polisi	Medi 2020
11	Darparu hyfforddiant i aelodau etholedig fel rhan o'r rhaglen Hyfforddiant i Aelodau ar ofynion Safonau'r Gymraeg, yn cynnwys y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu a Hybu	Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu, Hybu	Rhagfyr 2020
12	Darparu sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith i'r holl staff newydd fel rhan o'r broses Gynefino Staff newydd	Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu, Hybu	Mawrth 2021
13	Darparu sesiwn ar ofynion Safonau'r Gymraeg fel rhan o'r rhaglen gynefino chwarterol i reolwyr newydd	Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu, Hybu	Mawrth 2021
14	Hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i gael hyfforddiant a sesiynau ymarfer anffurfiol i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg	Gweithredu	Mawrth 2021
15	Parhau â'r trafodaethau gyda'r Urdd i hwyluso ymweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Phowys yn 2023	Hybu	Mai 2023

Gwasanaethau Oedolion	8.5%	24.8%	38.7%	13.4%	4.3%	3.2%	4.2%	2.9%
Gwasanaethau Plant	10.1%	19.6%	43.7%	10.3%	4.5%	3.4%	2.9%	5.6%
Comisiynu	0.0%	20.0%	44.6%	15.4%	4.6%	3.1%	4.6%	7.7%
Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu	35.8%	17.7%	32.0%	5.1%	2.9%	1.8%	2.5%	2.2%
Tai a Datblygu Cymunedol	35.6%	21.6%	26.0%	5.5%	3.3%	1.4%	2.3%	4.2%
Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	26.7%	17.4%	34.3%	7.0%	4.7%	1.7%	5.2%	2.9%
Ysgolion y Sir	27.6%	13.1%	20.4%	13.5%	6.1%	4.7%	13.3%	1.3%
Gwasanaeth Ysgolion	12.2%	7.1%	27.6%	21.4%	8.2%	4.1%	15.3%	4.1%
Gwasanaeth Ieuenctid	11.9%	4.5%	49.3%	13.4%	3.0%	10.4%	4.5%	3.0%
Cyfreithiol a Democrataidd	42.2%	15.6%	20.3%	9.4%	1.6%	1.6%	7.8%	1.6%
Cefnogi'r Aelodau	0.0%	0.0%	66.7%	0.0%	33.3%	0.0%	0.0%	0.0%
Gwasanaethau Digidol	9.5%	23.0%	35.7%	11.9%	1.6%	4.8%	6.3%	7.1%
Cyllid	14.1%	23.9%	36.6%	12.7%	2.8%	2.8%	5.6%	1.4%
Trawsnewid a Chyfathrebu	0.0%	8.0%	42.0%	14.0%	6.0%	6.0%	22.0%	2.0%
Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad	8.8%	20.0%	38.8%	12.5%	8.8%	2.5%	5.0%	3.8%
Cyngor Sir Powys	25.2%	16.1%	26.4%	11.7%	5.2%	3.8%	9.3%	2.3%

- Mae gan Gyngor Sir Powys bellach gofnod sgiliau iaith ar gyfer 74.8% o'i aelodau staff. Mae hyn yn gynydd o 2.2% ar ffigwr 2019 (72.6%)
- 16.1% o staff y Cyngor sydd heb unrhyw sgiliau iaith (gostyngiad o 17.6% 2019)
- Mae 38.1% o staff yn medru gallu cyfathrebu tasgau syml, cyffredin, yn gallu cynnal sgwrs gymdeithasol fer, neu'n gallu cyfarch ac ynganu enwau yn gywir (i fyny o 35.2% yn 2019)
- Mae 18.3% o staff yn nodi eu bod yn gallu delio â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi, yn medru cynnal sgwrs fyrfyr ar bynciau cyfarwydd neu berthnasol, neu'n aelodau staff cwbl rugl (yr un fath â 2019).

5. Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi penodol a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg

Mae hyn yn berthnasol i gyrsiau penodol a enwir yn y safonau (h.y. recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau cwyno a disgyblu; ymsefydlu; delio â'r cyhoedd; iechyd a diogelwch) ac nid yw'n cyfeirio at hyfforddiant dysgu Cymraeg

Cyrsiau E-ddysgu

	Nifer y Staff a wnaeth yr hyfforddiant yn Gymraeg	Nifer y Staff a wnaeth yr hyfforddiant yn Saesneg	% y Staff a wnaeth yr hyfforddiant yn Gymraeg
Diogelu Oedolion – Ymwybyddiaeth Sylfaenol	0	138	0%
Gwarchod a Diogelu Plant	3	354	0.28%
Diogelwch Seibr a GDPR	5	1913	0.26%

Diogelwch Seibr a GDPR (Diweddariad)	0	139	0%
Rheoli Perfformiad Effeithiol	0	0	0%
Deddf Cydraddoldeb (2010)	3	386	0.77%
Ymwybyddiaeth o Dwyll	0	17	0%
Ymwybyddiaeth HAVS	1	2	33.33%
Rheoli Clefyd y Llengfilwyr	3	21	12.5%
Modiwl Codi a Chario 1 (Theori)	8	395	1.99%
Credyd Cynhwysol Lefel 1	0	15	0%

Mae'r hyfforddiant Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, hyfforddiant Ymwybyddiaeth Dementia a'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gofalwyr Gofal Cymdeithasol Cymry a'r GIG oll yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Serch hynny, mae'r cyrsiau'n cael eu darparu gan ddarparwr allanol trwy borth e-ddysgu'r GIG. Nid yw'r adroddiadau am y cyrsiau hyn, yn cynnwys ym mha iaith yr ymgwymerwyd â hwy, ar gael ar hyn o bryd gan y darparwr.

Darperir rhagor o hyfforddiant yn ddigidol trwy Netconsent, meddalwedd sy'n gofyn bod staff yn darllen polisïau, llenwi holiaduron ac ymgymryd â hyfforddiant cyn mewngofnodi i'w peiriannau.

Caiff y polisïau, holiaduron a'r hyfforddiant hyn yn darparu yn awtomatig yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn dibynnu ar yr iaith a ddewiswyd gan bob defnyddiwr wrth ddefnyddio Netconsent am y tro cyntaf.

Nid yw'r data am ddewis iaith defnyddwyr serch hynny yn cael ei storio gan feddalwedd Netconsent, ac felly nid oes modd adrodd ar nifer a chanran y defnyddwyr sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn Gymraeg.

Mae Cyngor Sir Powys yn darparu amrywiaeth o gyrsiau eraill ar gyfer ei staff, a bydd yn gwneud trefniadau i alluogi staff i gael yr hyfforddiant hwnnw yn Gymraeg pan fo gofyn. Ni dderbyniwyd ceisiadau am hyfforddiant o'r fath yn Gymraeg yn ystod 2019-20.

6. Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd â gwahanol ofynion o ran sgiliau Gymraeg.

O dan Bolisi Recriwtio a'r Gymraeg y Cyngor, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2018, mae sgiliau Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu, gyda'r rheolwr recriwtio i asesu a phennu'r lefel briodol o 1 i 5. Nodir hynny yn y swydd ddisgrifiad a'r manyleb person ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu.

Yn ystod 2019-20 cafodd 1039 o swyddi eu hysbysebu gan y Cyngor, yn cynnwys swyddi o fewn yr awdurdod a swyddi mewn ysgolion. Roedd lefel y sgiliau iaith Gymraeg oedd yn ofynnol ar gyfer y swyddi fel a ganlyn;

Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg	Nifer y Swyddi
1	877
2	65
3	21
4	5
5	71

Mae disgrifiad o'r lefelau i'w weld yn yr adran ar sgiliau iaith y gweithlu yn adran 4 uchod.

Atodiad 1: Cwynion ac Ymchwiliadau yn ymwneud a Safonau'r Gymraeg

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ymwneud a Safonau'r Gymraeg ynghyd a manylion yr Ymchwiliadau Safonau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20

Cwynion 2019-20				
Cyfeirnod y Gwyn	Dyddiad	Manylion y Gŵyn	Adran Safonau'r Gymraeg	Ymateb / Gweithred
1-2019/20	19/8/2019	Derbyniwyd cwyn fod un o Aelodau'r Cyngor wedi ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg trwy nodi nad oedd yn ei deall, a gofyn am gyfieithiad i'r Saesneg o'r e-bost. Ymatebodd o gohebydd i nodi polisi'r Cyngor ar ohebu yn Gymraeg, a bod yn well ganddo barhau i ohebu yn Gymraeg. Ni dderbyniodd ymateb bellach i'r ohebiaeth, ac fe gysylltodd ag un o aelodau Cabinet y Cyngor i gyflwyno cwyn.	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Anfonwyd ateb at yr achwynydd yn ymddiheuro am iddo beidio derbyn ymateb yn Gymraeg i'w ohebiaeth.</p> <p>Cadarnhawyd fod y Cyngor yn ymdrin â thestun ei neges wreiddiol ac yn cydweithio ag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i glirio cilfan flêr ar yr A470 ym Mhowys.</p> <p>Anfonwyd gohebiaeth bellach at yr achwynydd i nodi fod Adran Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor wedi siarad gyda'r Cynghorydd dan sylw, a oed yn derbyn nad oedd wedi ymateb mewn modd priodol, yn unol â pholisi'r Cyngor, ac yn ymddiheuro am yr ymateb.</p> <p>Nodwyd hefyd fod nodyn briffio wedi'i anfon at holl Aelodau Etholedig y Cyngor i nodi'r polisi ar ymateb i ohebiaeth Gymraeg, gan amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt i'w galluogi i ddilyn y gofynion.</p> <p>Cafwyd ymateb gan yr achwynydd yn nodi 'Rwy'n fodlon gyda'r canlyniad, ac yn falch bod mesurau yn eu lle i ofalu na all hyn ddigwydd eto'</p>
2-2019/20	27/8/2019	Derbyniwyd cwyn fod gohebiaeth a anfonwyd gan Adran Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor wedi'i anfon gyda'r Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg.	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Tynnwyd sylw'r Adran Gwasanaethau Etholiadol at y gwyn, gan nodi polisi'r Cyngor a gofynion y Safonau sy'n nodi fod angen i'r Gymraeg ymddangos fel y bydd yn cael ei darllen yn gyntaf mewn gohebiaeth ddwyieithog.</p> <p>Nodwyd fod yr ohebiaeth wedi'i chreu yma awtomatig gan y system gofrestru, a bod y dewisiadau ar gyfer addasu'r diwyg yn gyfyngedig,</p>

				ond y byddai'r adran yn archwilio'r system i weld sut i addasu trefn y wybodaeth.
3-2019/20	3/9/2019	Derbyniwyd cwyn fod y geiriau Cymraeg wedi'u gosod yn y drefn anghywir ar arwyddion yn safle gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor yn Y Drenewydd.	Cyflenwi Gwasanaeth	Ymchwiliwyd i'r mater ymhellach i ganfod yr arwydd dan sylw. Cadarnhawyd fod yr arwydd yn anghywir, a gwnaethpwyd trefniadau i newid yr arwydd.
4-2019/20	17/10/2019	Derbyniwyd cwyn fod llawer mwy o wasanaethau yn cael eu rhestru ar dudalen Saesneg ar wefan y Cyngor na'r hyn oedd ar gael ar y dudalen Gymraeg	Cyflenwi Gwasanaeth	Gwnaethpwyd ymchwil pellach i'r gwyn, gan nodi fod y gwasanaethau dan sylw ar gael yn y Gymraeg trwy'r wefan, ond nad oedd y dolenni priodol wedi'u rhestru ar y dudalen 'Cyflwyno Cais'. Nodwyd y gwahaniaethau wrth dîm y we, a chafodd y dolenni priodol eu cynnwys ar y dudalen.
5-2019/20	13/11/2019	Derbyniodd y Cyngor gwyn am anawsterau wrth gysylltu â llinell ffôn Gymraeg y Cyngor. Roedd y ffôn yn canu am gyfnod byr cyn datgysylltu. Nodwyd hefyd nad oedd y peiriant ateb awtomatig yn gallu ynganu enwau Cymraeg yn gywir.	Cyflenwi Gwasanaeth	Ymddiheurwyd am y gwall a diolchwyd i'r achwynydd am dynnu sylw'r gwasanaeth at y broblem. Gwelwyd fod nam o fewn y system ac nad oedd rhai rhifau ffôn wedi cael eu trosglwyddo i system newydd. Nodwyd fod y Cyngor wedi cysylltu â'r cwmni sy'n darparu'r system a gyda'r adran TGCh i gywiro hynny.
6-2019/20	20/11/2019	Cafwyd cwyn gan rywun oedd wedi galw'r Cyngor i ddweud am ffordd wedi rhewi oedd yn achosi perygl i'r bus ysgol. Wedi dewis y llinell Gymraeg, atebwyd y ffôn yn Saesneg heb gydnabyddiaeth ei bod yn alwad i'r llinell Gymraeg. Teimlwyd fod y sawl atebodd y ffôn yn anfoesgar, ddim yn cymryd ei phryderon o ddiifri ac yn methu ag ynganu ei henw.	Cyflenwi Gwasanaeth	Ymddiheurwyd am agwedd yr aelod staff a nodwyd fod rheolwyr yr adran wedi siarad ag ef am y digwyddiad. Nodwyd hefyd yn bydd y goruchwyliwr nawr yn gwrandao ar rai galwadau i sicrhau ansawdd a bod yr agwedd a'r ymddygiad priodol yn cael eu harddangos.

		Teimlwyd fod y sawl atebodd y ffon yn dangos diffyg parch tuag ati ac at ei hunaniaeth Gymraeg.		
7-2019/20	11/12/2019	Derbyniwyd cwyn fod testun ar gefn rhai o gerbydau Adran Briffyrdd y Cyngor yn ymddangos yn Saesneg yn unig.	Cyflenwi Gwasanaeth	Nodwyd fod cerbydau oedd wedi'u prynu'n ddiweddar gan y Cyngor wedi cyrraedd gyda'r testun ar eu cefn yn Saesneg yn unig. Serch hynny, roedd cynllun ar waith gan y Cyngor i osod sticeri newydd ar gefn y cerbydau hynny, ac y dylai'r holl waith fod wedi'i gwblhau o fewn rhai wythnosau. Mae'r manyleb ar gyfer cerbydau newydd hefyd wedi cael ei ddiweddarau i sicrhau fod yr holl destun yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.
8-2019/20	17/12/2019	Derbyniwyd cwyn nad oedd siaradwyr Cymraeg mewn gorsaf bleidleisio adeg yr etholiad diweddar.	Cyflenwi Gwasanaeth	Ymddiheurwyd nad oedd siaradwyr Cymraeg yn yr orsaf bleidleisio dan sylw. Nodwyd fod y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau fod staff cyfrwng Cymraeg ar gael, yn enwedig yn yr ardaloedd sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg. Serch hynny, bu'n rhaid i'r unigolyn oedd i fod yn yr orsaf bleidleisio dynnu'n ôl ar y funud olaf gan adael yr orsaf heb siaradwr Cymraeg. Ond nodwyd y byddai sicrhau siaradwyr Cymraeg ar gyfer yr orsaf yn flaenoriaeth ar gyfer etholiadau'r dyfodol.
9-2019/20	16/1/2020	Derbyniwyd cwyn nad oedd system ar-lein ar gael i wneud cais am drwydded dros dro trwy gyfrwng y Gymraeg	Cyflenwi Gwasanaeth	Nodwyd fod y Cyngor yn darparu trefn bapur i wneud ceisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod y system ar-lein yn cael ei darparu trwy wefan GOV.UK Llywodraeth Prydain. Nodwyd fod y Cyngor wedi cysylltu â nhw droeon i'w hannog i ddarparu'r drefn ymgeisio yn Gymraeg ond heb lwyddiant hyd yma, ac hefyd wedi gohebu â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am y mater yn y gorffennol. Roedd y wybodaeth fwyaf diweddar a gafwyd gan swyddfa'r Comisiynydd yn nodi fod y Comisiynydd wedi bod yn trafod hyn gyda'r Swyddfa Gartref, bod angen pasio deddfwriaeth yn San Steffan i alluogi'r ffurflenni trwyddedu i fod yn Gymraeg.

10-2019/20	18/1/2020	Derbyniwyd cwyn am ansawdd testun Cymraeg ar arwyddion ar briffyrdd ac ar adeiladau'r sir. Ni chyfeiriwyd at unrhyw arwyddion penodol	Cyflenwi Gwasanaeth	Nodwyd fod Uned Gyfieithu'r Cyngor yn gwirio unrhyw arwyddion ar eiddo corfforaethol a phriffyrdd cyn cael eu gosod. Os bydd camgymeriad a bod ein sylw'n cael ei dynnu at hynny, byddwn yn eu cywiro fel sy'n briodol. Nodwyd mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw arwyddion ar Gefnffyrdd. Serch hynny, gofynnwyd i'r achwynydd nodi unrhyw enghreifftiau penodol i'r Cyngor eu harchwilio er mwyn eu cywiro neu drosglwyddo'r wybodaeth i'r asiantaeth berthnasol.
Gohebiaeth gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i dynnu sylw at gwynion				
	25/7/2019	Arwyddion mewn safle bysiau newydd yn Llandrindod gyda'r testun 'Except Buses' yn ymddangos yn Saesneg yn unig.	Cyflenwi Gwasanaeth	Cysylltwyd â'r cwmni contractwyr oedd wedi cael eu comisiynu i wneud y gwaith i'w hatgoffa am yr angen i ddarparu arwyddion yn ddwyieithog a gofyn iddynt godi arwydd dwyieithog yn y safle bysiau.
	4/9/2019	Roedd y Comisiynydd wedi derbyn ymholiad gan aelod o'r cyhoedd am arwydd uniaith Saesneg ar gyfer 'Glanusk Caravan Park'.	Cyflenwi Gwasanaeth	Er mai safle preifat yw'r maes carafanau dan sylw, gwelwyd mai 'The Glanusk Family Limited Partnership' yw enw'r cwmni, ac mai hynny hefyd a ddefnyddiwyd yn y drwydded ar gyfer y maes carafanau. Yn sgil hynny, roedd y Cyngor yn cytuno mai 'Glanusk' yw enw'r brand yn hytrach na 'Glanusk Caravan Park'. Roedd y Cyngor yn cytuno felly y dylai'r enw ar yr arwydd fod yn ddwyieithog. Er mai ystâd Glanusk oedd wedi talu am yr arwyddion, y Cyngor sy'n berchen arnyn nhw gan eu bod ar rwydwaith y Cyngor, felly trefnodd y Cyngor i arwyddon gael eu codi yn defnyddio'r enw Cymraeg 'Maes Carafanau Glanusk' i gyd-fynd a'r enw Saesneg, gyda'r Gymraeg i'w gosod fel ei bod yn cael ei darllen gyntaf.
Ymchwiliadau Safonau 2019-20				
Cod yr Ymchwiliad	Dyddiad Agor Ymchwiliad	Testun	Cam yn y Broses	Camau Gweithredu
CSG493	29/1/2019	Ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â gohebiaeth	Daeth yr Ymchwiliad i ben ar 6 Medi 2019	Daeth y Comisiynydd i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r Safonau yn ymwneud ag ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.

		Treth y Cyngor a anfonwyd yn Saesneg yn unig a'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd yn yr Hysbysiad Treth y Cyngor		<p>Ni osodwyd camau gweithredu am y methiant i gydymffurfio â Safon 1 gan fod camau gweithredu eisoes wedi'u gosod fel rhan o ymchwiliad blaenorol.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi cymryd y camau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau canllawiau i staff ar gydymffurfio â'r Safonau ar fewnwyd y Cyngor • Ychwanegu adnoddau ar y fewnwyd i alluogi staff i weithio mwy trwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â thempledi llofnod e-bost dwyieithog a thempledi papur pennawd sy'n nodi fod y Cyngor yn croesawu gohebiaeth Gymraeg • Ychwanegu rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg ar fewnwyd y Cyngor • Cynnal ymgyrch fewnol ar ddarparu gwasanaeth Cymraeg • Diweddarau'r Llawlyfr Staff, gydag adran benodol am yr iaith Gymraeg a'r Safonau • Sesiynau am yr iaith Gymraeg a'r Safonau yn rhaglen gynefino i Reolwyr a Staff newydd. • Cynhaliwyd trafodaethau penodol gyda'r adran Treth y Cyngor i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y Safonau a bod trefn i gofnodi dewis iaith unigolion <p>Daeth y Comisiynydd i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safon 5, gan iddo ohebu yn Gymraeg pan oedd yn ymwybodol o ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg • Safon 6, gan mai enw uniaith Saesneg oedd ar y stryd ar y pryd. Serch hynny, mae'r Cyngor bellach wedi mabwysiadu enw dwyieithog ar gyfer y stryd ar gais yr achwynydd.
CSG532	2/5/2019	Ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas ag Asesiadau Effaith ar y Gymraeg.	Daeth yr Ymchwiliad i ben ar 9 Ionawr 2020. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd	Yn yr ymchwiliad, daeth y Comisiynydd i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Safonau Llundain Polisi mewn perthynas ag asesu effaith cynigion trawsnewid ysgolion ar gyfer uno ysgolion yn ardal Llanfyllin yn ddigonol ar yr iaith Gymraeg, ac wedi

		<p>rhwng y Cyngor a Swyddogion y Comisiynydd i drafod canfyddiadau'r Ymchwiliad a chamau a gymerwyd gan y Cyngor.</p>	<p>methu holi cwestiynau penodol am effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori.</p> <p>Roedd yr adroddiad, serch hynny, yn cydnabod y gallai'r penderfyniad arwain at gyfleoedd gwell i ddefnyddio'r Gymraeg,</p> <p>Roedd y camau gorfodi a osodwyd yn yr adroddiad terfynol yn mynnu fod y Cyngor yn;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'i weithdrefnau a'i ganllawiau ei hun wrth gynnal asesiadau o effaith ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg, gan <ul style="list-style-type: none"> - godi ymwybyddiaeth aelodau etholedig o'r camau sy'n rhaid eu cymryd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg - darparu hyfforddiant i bob aelod staff sy'n gyfrifol am asesiadau effaith - datblygu proses o wirio a chymeradwyo asesiadau effaith ar y Gymraeg • Datblygu canllaw i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y safonau • Sicrhau bod dogfennau ymgynghori'n ceisio barn ar effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sut i addasu'r cynigion er mwyn cael effaith fwy positif neu lai andwyol ar hynny • Rhoi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â'r Safonau hyn <p>Mae'r camau canlynol wedi'u cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau mewn perthynas ag ymchwiliad CSG532;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae sesiynau hyfforddi chwarterol wedi'u trefnu i swyddogion sy'n cynnal asesiadau effaith • Mae'r templed holiaduron ymgynghori wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys cwestiynau safonol am effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
--	--	---	---

			<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r angen i asesu effaith cynigion ar y Gymraeg fel rhan o ymgyrch fewnol ar gydymffurfio â'r Safonau • Mae'r canllawiau ymgynghori corfforaethol wedi cael eu diweddarau, ac yn cynnwys adran ar ystyried yr effaith ar y Gymraeg • Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoedduswydd i'w fethiant i gydymffurfio â'r Safonau trwy ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd sesiwn hyfforddi oedd wedi cael ei threfnu ar gyfer Cabinet y Cyngor ei gohirio yn sgil Covid-19. Bydd yn cael ei ail-threfnu wedi i'r cyfyngiadau gael eu llacio • Bydd y Cyngor yn digideiddio'r broses asesu effaith gorfforaethol yn ystod 2020-21, fydd yn hwyluso'r broses asesu effaith, yn galluogi'r Cyngor i archwilio'r data a mesur effaith gronpus, a chynorthwyo gyda llywodraethiant a chraffu ar benderfyniadau. <p>Mae'r Comisiynydd wedi caniatáu estyniad ar gyfer cyflawni'r camau gorfodi yn sgil sefyllfa Covid-19.</p>
--	--	--	--